# Maniffesto Llyfrgelloedd Gwyrdd

#GreenLibraries

Mae effaith yr argyfwng hinsawdd a'r amgylchedd eisoes i'w deimlo yn fyd-eang ac yn lleol. Mae'n effeithio ar bob un ohonom, ond y rhai sydd leiaf cyfrifol am yr argyfwng – y rhai mwyaf difreintiedig yn ein cymunedau – sy'n debygol o ddioddef fwyaf.

Fel llyfrgelloedd mae gennym le yng nghalon y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Drwy'r maniffesto hwn, rydym am ddod at ein gilydd i roi gweledigaeth a rennir ar waith: arwain trwy esiampl drwy ein gweithredoedd amgylcheddol ein hunain a defnyddio ein pŵer a'n cyrhaeddiad i roi gwybodaeth i bobl a'u hysbrydoli i gymryd camau cadarnhaol a meithrin gwytnwch yn y cymunedau amrywiol rydym yn eu gwasanaethu.

Rydym yn cydnabod amrywiaeth ein sector a dyna pam mae hon yn fenter gynhwysol ar gyfer pob llyfrgell i'w helpu i wneud y newidiadau sy'n bosib iddynt, gyda'r adnoddau sydd ganddynt.

Wrth lofnodi'r maniffesto hwn, rydym yn cytuno i'r canlynol:

## 1 Gosod cynaliadwyedd amgylcheddol wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau

Rydym yn addo gweithio tuag at wneud meddylfryd a gwerthoedd amgylcheddol yn ganolog i'r hyn a wnawn. Byddwn yn gweithio gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn ein sefydliadau tuag at osod, cyfathrebu a chyflawni targedau amgylcheddol credadwy ond uchelgeisiol, yn unol ag uchelgeisiau, targedau a chynlluniau amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd lleol perthnasol. Lle bo modd, byddwn yn gweithio gydag eraill i ddysgu oddi wrth yr arfer amgylcheddol gorau a'i rannu.

## 2 Arloesi ac esblygu

Byddwn yn gweithio i esblygu arfer amgylcheddol ar draws swyddogaethau ac arferion craidd y llyfrgell ac i brofi ac archwilio dulliau ac atebion newydd ac arloesol ar gyfer newid amgylcheddol cadarnhaol.

## 3 Gweithio gyda'n cymunedau

Byddwn yn dysgu oddi wrth fentrau gwyrdd lleol ac yn eu cefnogi, ac yn gweithio gyda hwynt ac eraill i rymuso ein cymunedau lleol i gymryd camau amgylcheddol cadarnhaol. Byddwn yn darparu amgylchedd diogel ac agored ar gyfer dysgu, gan rannu syniadau a thrafod yr argyfwng hinsawdd ac amgylcheddol a chanfod sut y gallwn weithio tuag at ddyfodol gwell i'r blaned a'i phobl. Wrth wneud hynny, byddwn yn defnyddio dulliau creadigol ac arloesol i gysylltu â grwpiau amrywiol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

## 4 Defnyddio ein llais i gael mwy o effaith

Byddwn yn defnyddio ein cyrhaeddiad unigryw a'n safle o ymddiriedaeth i rannu a helpu pobl i ddod o hyd i wybodaeth wedi'i dilysu, brwydro yn erbyn camwybodaeth am newid yn yr hinsawdd, gwella llythrennedd a dealltwriaeth am yr amgylchedd a'r hinsawdd a helpu i ddatblygu meddwl beirniadol ar gyfer pob oed. Trwy ddarparu gwybodaeth gyfredol a chywir, byddwn yn helpu pobl i lywio'r iaith a'r cysyniadau sy'n aml yn gymhleth o amgylch materion yr hinsawdd a'r amgylchedd a gwneud dewisiadau amgylcheddol mwy gwybodus.

Green Libraries Partnership

5

## Gweithio mewn partneriaeth

Byddwn yn ffurfio partneriaethau gyda sefydliadau eraill o'r un anian yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol er mwyn gwella effaith gadarnhaol rhaglenni a mentrau gwyrdd. Byddwn yn defnyddio ein gofod a'n rhwydweithiau er mwyn dod â grwpiau at ei gilydd i drafod a gweithredu mewn modd ystyrlon dros y blaned a'i phobl.

6

## Tyfu a rhannu ein gwybodaeth

Byddwn yn ehangu ein dealltwriaeth amgylcheddol yn barhaus, fel unigolion, timau a sefydliadau. Byddwn yn blaenoriaethu hyfforddiant a datblygiad proffesiynol sy'n grymuso staff llyfrgelloedd i gymryd camau cadarnhaol a datblygu arferion amgylcheddol cynaliadwy yn eu maes gwaith eu hunain. Byddwn yn cefnogi gweithredu amgylcheddol ar y cyd, ar draws y sector, gan gynnwys hyrwyddo rôl llyfrgelloedd wrth gefnogi newid cadarnhaol.

7

## Cefnogi pobl ifanc

Byddwn yn cefnogi plant a phobl ifanc i fod yn arweinwyr mewn cyfnod o drawsnewid gwyrdd a chyfiawn ac i weithredu gartref, yn yr ysgol, mewn cymunedau, ac yn y man gwaith. Byddwn yn cynorthwyo plant a phobl ifanc i hyrwyddo trafodaeth amgylcheddol a sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed.

## Gellir defnyddio'r Maniffesto hwn:

- Fel cyfres o egwyddorion sy'n sail i unrhyw strategaethau, cynlluniau a rhaglenni lleol
- Fel arf datblygu wrth adnabod meysydd gweithredu ac ar gyfer gwelliant
- Er mwyn galluogi sgyrsiau gyda chymunedau lleol, staff llyfrgelloedd a phartneriaid allweddol, gan gynnwys pennu manylion pellach yn unol ag anghenion lleol
- Er mwyn hyrwyddo gwerthoedd a dyheadau llyfrgell
- Fel dogfen eiriolaeth
- Er mwyn adnabod partneriaid a chydweithwyr o'r un anian
- Fel sylfaen ar gyfer cynlluniau datblygu staff

**I lofnodi'r Maniffesto Llyfrgelloedd Gwyrdd, ewch i www.cilip.org.uk/GreenLibrariesManifesto**

Cefnogir y Maniffesto Llyfrgelloedd Gwyrdd gan CILIP mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Lloegr, y Llyfrgell Brydeinig, Libraries Connected a Julie's Bicycle. Mae'r maniffesto hwn yn gosod allan ein gwerthoedd a'n hymrwymiadau cyffredin er mwyn ysgogi newid trawsnewidiol ar gyfer ein planed a'n cymunedau. Estynnir gwahoddiad cynnes i bob llyfrgell lofnodi'r Maniffesto Llyfrgelloedd Gwyrdd.

CILIP The library and information association | ARTS COUNCIL ENGLAND | BRITISH LIBRARY | Libraries Connected | Julie's Bicycle CREATIVE · CLIMATE · ACTION